**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1240
Ein cyf/Our ref EM/03880/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

04 Ionawr 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Tachwedd, yn rhinwedd eich swydd yn Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynghylch Deiseb P-06-1240 Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru.

Rwyf wedi nodi'r adroddiad a'r crynodeb a ddarparwyd gan Epilepsy Action Cymru ynghylch cyflwr gwasanaethau epilepsi yng Nghymru, a gaiff eu rhannu â'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol i'w hystyried. Rwyf hefyd yn deall bod yr Arweinydd Clinigol ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol, ynghyd ag un o'm swyddogion, wedi cwrdd â chynrychiolwyr Epilepsy Action Cymru i drafod yr adroddiad.

Mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar. Y cam nesaf fydd i'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol lunio manylebau gwasanaeth a fydd yn hollbwysig er mwyn sicrhau gwelliannau i wasanaethau ar gyfer pobl sydd â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi. Bydd hyn yn gyfle i bennu safonau clir ar gyfer gwasanaethau niwroleg yng Nghymru a'u gwreiddio ym mhrosesau cynllunio'r byrddau iechyd.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.